



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig;
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development;
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

Nodiadau Cyfarwyddyd

Cynnwys

CYFLWYNIAD.....	3
LLYWODRAETH CYMRU – MANYLION CYSWLLT	4
AMCANION STRATEGOL A THEMATIG.....	4
PWY ALL WNEUD CAIS.....	5
DIFFINIAD O BBaCh.....	5
DIFFINIAD O GYNHYRCHION AMAETHYDDOL	6
GWEITHGAREDDAU CYMWYS.....	6
GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS.....	7
COSTAU CYMWYS	8
COSTAU ANGHYMWYS.....	8
CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF.....	10
31. I mewn fel Atodiad 1 ac allan fel Atodiad 1	11
32. I mewn fel Atodiad 1 ac allan fel rhywbeth heblaw Atodiad 1	11
CYMORTH GWLADWRIAETHOL.....	11
DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS.....	12
GOFYNION ALLWEDDOL	13
THEMÂU TRAWSBYNCIOL.....	14
SUT MAE GWNEUD CAIS.....	14
AMODAU GRANT	16
TALU GRANT.....	18
MONITRO PROSIECTAU	19
DIWEDD Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN BUSNESAU BWYD.....	20
GWEITHDREFN APELIO.....	20
GWEITHDREFN GWYNO.....	20
ATODIAD A.....	22

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS)** a'r math o brosiectau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Darllenwch yn ofalus. Os ydych chi'n credu wedyn y gallai'ch cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais am gymorth o dan y cynllun hwn, gweler yr adran 'Sut mae Gwneud Cais' isod.
2. Mae FBIS yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Ei nod yw helpu cynhyrchwyr cynhyrchion amaethyddol ar lefel gynradd yng Nghymru i ychwanegu gwerth at eu cynhyrchion drwy ddarparu cymorth i'r busnesau hynny sy'n cynnal gweithgareddau prosesu cam cyntaf a/neu ail gam. Bwriedir hefyd iddo wella perfformiad a chystadleurwydd eu busnesau; i ymateb i alw defnyddwyr; i annog arallgyfeirio ac i nodi, manteisio ar, a gwasanaethu marchnadoedd newydd a phresennol.
3. Mae FBIS yn cwmpasu buddsoddiadau cyfalaf mewn cyfarpar prosesu ynghyd â rhai costau cysylltiedig ac mae'n cefnogi prosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i gynhyrchwyr cynradd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn y sectorau amaethyddiaeth sy'n darparu deunyddiau crai. Mae Mentrau Micro, Bach neu Ganolig yn flaenoriaeth benodol ar gyfer cefnogaeth.
4. Mae FBIS yn cynnwys prosesu lle mae'r mewnbynnau'n 90% o leiaf o gynhyrchion amaethyddol cymwys fel y'u diffinnir gan Atodiad 1 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (gweler canllawiau technegol ar wahân am ragor o wybodaeth)¹ sy'n tarddu o fewn yr UE. Mae prosesu cotwm yn gymwys hefyd, ond nid prosesu cynhyrchion pysgodfeydd.
5. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos manteision uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r tyfwyr neu gynhyrchwyr cynradd sy'n darparu'r deunyddiau crai sy'n fewnbynnau ar gyfer y prosesu ac y bydd cyfran ddigonol a pharhaus o'r manteision economaidd ehangach yn cronni i gynhyrchwyr cynradd.
6. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos hefyd bod yna farchnad hyfyw ar gyfer eu cynnyrch(cynhyrchion) ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant. Cynllun dewisol yw hwn a byddai swm y grant a gynnigir yn gysylltiedig ag amgylchiadau unigol. Yr **isafswm angenrheidiol** fyddai hynny bob tro i alluogi i'r buddsoddiad fynd rhagddo.
7. Gellir defnyddio'r grant i wella a datblygu cyfleusterau prosesu, e.e. i godi adeiladau newydd; adnewyddu hen eiddo a phrynu cyfarpar newydd neu ail law cymwys (bydd amodau penodol yn gymwys). Arwydd cryno iawn yn unig yw hwn o'r prosiectau a allai gael eu cynorthwyo; dangosir rhagor o enghreifftiau yn Atodiad A.

¹ Fersiwn cyfunol o'r Cytuniad ar Weithrediaeth yr Undeb Ewropeaidd (OJ 326, Atodiad 1, tud. 287-289).

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

8. Dim ond amlinelliad o'r cynllun a'r ffordd y mae'n cael ei weithredu yw hwn – gallai'r rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwysedd newid.

LLYWODRAETH CYMRU – MANYLION CYSWLLT

9. Os oes gennych unrhyw ymholiadau dylech anfon e-bost at y cyfeiriad isod:

foodBIS@llyw.cymru

AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

10. Mae'n rhaid i weithgareddau dan FBIS fynd i'r afael ag o leiaf un o'r Meysydd Ffocws canlynol yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

Maes Ffocws 1. Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig:

- 1(a) meithrin arloesi a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig;
- 1(b) cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth ac ymchwil ac arloesi;

Maes Ffocws 2. Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a gwneud ffermydd yn fwy hyfyw:

- 2(b) hwyluso'r ffordd i'r genhedlaeth newydd ymuno â'r sector amaethyddol;

Maes Ffocws 3. Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth:

- 3(a) integreiddio'n well gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadranol;
- 3(b) helpu i reoli risg ar ffermydd;

Maes Ffocws 5. Hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sector amaethyddiaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth:

- 5(a) sicrhau bod y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon;
- 5(b) hwyluso cyflenwi a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy, isgynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi;

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Tudalen 4 o 26

Maes Ffocws 6. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig:

6(a) hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach newydd a chreu swyddi;

6(b) meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig;

6(c) ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig, a'i gwneud yn haws iddynt ei defnyddio a gwella'i hansawdd.

11. Mae'n rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy FBIS wneud cyfraniad at y Cynllun Gweithredu Strategaeth Bwyd trosfwaol – Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 ac un neu fwy o'r amcanion thematig canlynol:

- hyrwyddo a datblygu sector bwyd a diod bywiog sy'n tyfu yng Nghymru;
- parhau i ddatblygu delwedd werdd ar sail dulliau cynhyrchu cynaliadwy;
- meithrin cydnherthed pellach yn y diwydiant i wrthsefyll newidiadau yn y farchnad;
- sbarduno gwelliannau o ran diogelwch bwyd;
- hyrwyddo arloesedd technolegol mewn cynhyrchion a phrosesau;
- darparu cyfleoedd gyrfa ar lefelau sgiliau amrywiol.

PWY ALL WNEUD CAIS

12. Mae'r cynllun yn agored i geisiadau bob math o fusnesau sy'n ymwneud â phrosesu cynradd a/neu eilaidd cynhyrchion amaethyddol, megis:

- unig fasnachwyr;
- sefydliadau sector gwirfoddol;
- cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus (BBaChau a Mentrau Mawr);
- busnesau ffermio sydd am brosesu eu cynhyrchion amaethyddol eu hunain;
- busnesau newydd, gan gynnwys busnesau sy'n dechrau.

DIFFINIAD O BBaC

13. Mae BBaCh yn fenter sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol heb fod yn fwy na 50 miliwn ewro a/neu sydd â chyfanswm o ddim mwy na 43 miliwn ewro ar y fantolen flynyddol. Dylid trin staff rhan amser a gweithwyr tymhorol fel cyfran o'r ffigur cyfwerth ag amser llawn:

- mae BBaCh yn cynnwys 3 is-gategori o fentrau: micro, bach a chanolig
- mae mentrau Micro yn cyflogi llai na 10 o weithwyr, mentrau Bach yn cyflogi llai na 50 o weithwyr, a mentrau Canolig yn cyflogi llai na 250 o weithwyr
- mae'r diffiniad hefyd yn cyfeirio at y trosiant blynyddol a'r cyfanswm ar y fantolen flynyddol dan rhai amgylchiadau.

Dylid cyfeirio at ganllaw y Comisiwn Ewropeaidd, 'The new SME definition'² i gael diffiniad llawn.

DIFFINIAD O GYNHYRCHION AMAETHYDDOL

14. Mae'n rhaid i'r mewnbwn i weithgareddau prosesu fod yn gynhyrchion amaethyddol fel y'u diffinnir gan Atodiad 1 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (gweler canllawiau technegol ar wahân am ragor o wybodaeth) sy'n tarddu o fewn yr UE.
15. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gellir creu gwerth ychwanegol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol cynradd drwy ychwanegu rhai cynhyrchion nad ydynt yn tarddu o'r UE (er enghraifft ffa coco) a/neu drwy ymgorffori rhai cynhyrchion nad ydynt yn rhai amaethyddol (er enghraifft rhysgenni fel cyfrwng rhwymo). Felly, mae'n rhaid i'r mewnbynnau i'r gweithgareddau prosesu fod yn 90% o leiaf o gynhyrchion amaethyddol cymwys sy'n tarddu o fewn yr UE ac felly ni all y mewnbynnau ychwanegol fod yn fwy na 10%. Mae'n rhaid pennu'r canrannau yn seiliedig sail cyfanswm y ffigurau cynhyrchu blynyddol naill ai ar sail pwysau ffres neu werth. Ar ôl cytuno ar y fethodoleg, ni ellir ei newid yn ddiweddarach.
16. Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchion amaethyddol cyffredin yn gyson â'r diffiniad hwn, gan gynnwys cig coch (yn enwedig cig eidion, cig oen a chig carw wedi'i ffermio); cig moch; llaeth a chynhyrchion llaeth; wyau; dofednod' grawnfwydydd; cnydau cynhyrchu olew; ffrwythau a llysiau (gan gynnwys tatws); hopys; mêl; cnydau nad ydynt yn fwyd gan gynnwys blodau a phlanhigion garddwriaethol; hadau; a rhai cynhyrchion amaethyddol newydd.

Gweler y nodiadau cyfarwyddyd technegol ar wahân am ragor o wybodaeth.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

Mae cymorth dan y cynllun hwn yn cynnwys buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol mewn gweithgareddau prosesu ar gyfer cynhyrchion amaethyddol

² Yr Undeb Ewropeaidd, (2015), Canllawiau defnyddiwr i'r diffiniad o BBaCh, Undeb Ewropeaidd, Gwlad Belg, (sydd wedi deillio o): Argymhellion y Comisiwn (UE) ar 6ed Mai 2003 ynghylch y diffiniad o fentrau meicro, bach a chanolig (OJ 124, 20.5.2003, Atodiad 1, tud. 4-6)

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

sydd wedi'u cwmpasu gan Atodiad 1 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd neu gotwm, ond gan eithrio cynhyrchion pysgodfeydd.

17. Mae'n rhaid i fewnbynau'r gweithgarwch prosesu fod yn 90% o leiaf gynhyrchion amaethyddol cymwys sy'n tarddu o fewn yr UE (gweler yr adran flaenorol).
18. Gall allbwn y prosesu fod yn unrhyw fath o gynnyrch, er enghraifft, cynhyrchion amaethyddol eraill fel caws, blawd, iogwrt; cynhyrchion bwyd eraill fel prydau parod; cynhyrchion bwyd anifeiliaid; cynhyrchion bwyd anifeiliaid anwes; cynhyrchion bwyd swyddogaethol eraill; cynhyrchion maethol-fferylol a chynhyrchion nad ydynt yn fwyd fel bio-plastigion.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

20. Mae nifer o fuddsoddiadau a chynhyrchion nad ydynt yn gymwys am gymorth:

- prosiectau sy'n ymwneud â phrosesu cynhyrchion pysgodfeydd ac acwafeithrin
- prosiectau sy'n ymwneud â phrosesu deunyddiau crai nad ydynt yn tarddu o'r UE
- prosiectau sy'n ymwneud â phrosesu lle nad yw'r mewnbynau'n gynhyrchion amaethyddol
- buddsoddiadau ar lefel adwerthu – diffinnir fel prynu nwyddau i'w hadwerthu neu ddarparu gwasanaeth gwerth ychwanegol ar y pwynt darparu fel bwytai, caffis a siopau bwyd cyflym, gan gynnwys siopau symudol
- buddsoddiadau i amnewid eitemau a brynwyd yn flaenorol gyda chymorth grant yr UE neu Lywodraeth Cymru (o fewn yr un busnes)
- buddsoddiadau mewn warysau, storio, cludiant a/neu logisteg dosbarthu
- prosiectau sy'n ymwneud â phrosesu contractau (boed yn gynhyrchion amaethyddol cymwys ai peidio) lle nad yw'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu yn cael ei wireddu gan yr ymgeisydd a/neu nad eiddo'r ymgeisydd yw'r cynnyrch sy'n cael ei brosesu
- prosiectau sy'n ymwneud â chynhyrchu, prosesu, dosbarthu a defnyddio cnydau biomas
- prosiectau sy'n ymwneud â chynhyrchu biodanwydd seiliedig ar fwyd
- cynhyrchion lle na ellir dangos bod marchnad gyffredin realistig ar eu cyfer
- prosiectau sy'n ymwneud â storfeydd ymyrraeth
- warysau a/neu rewgelloedd a storfeydd oer ar gyfer cynhyrchion gorffenedig fel buddsoddiad ar wahân nad yw'n cynnwys gweithgareddau prosesu
- uwchraddio eiddo a/neu gyfarpar i fodloni'r gofynion sy'n deillio o gamau gorfodi statudol

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

- prosiectau sy'n ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion sy'n efelychu neu gymryd lle llaeth a chynhyrchion llaeth
- prosiectau sy'n ymwneud â chynhyrchu powdr llaeth babis a/neu gynhyrchion sy'n cymryd lle llaeth
- prosiectau sy'n ymwneud â gweithgareddau prosesu yn y sector siwgr.

COSTAU CYMWYS

21. Gall cymorth dan y cynllun hwn gwmpasu asedau diriaethol fel tir, adeiladau, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- (a) adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol, gyda thir ond yn gymwys i raddau nad yw'n uwch na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- (b) prynu peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased
- (c) costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt ym mhwyntiau (a) a (b), fel ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, ffioedd sy'n gysylltiedig â chyngor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd heb fod yn fwy na 12% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- (d) caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

22. Mae ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau cynllunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydysniadau hefyd yn gymwys hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u prynu cyn derbyn cymeradwyaeth cyn belled eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.

23. Mae cyfarpar ail law yn gymwys (BBaChau yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol
- mae'n addas i'w ddiben
- mae ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

COSTAU ANGHYMWYS

24. Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o wariant sy'n **anghymwys** ar gyfer cymorth grant. Nid yw hon yn rhestr derfynol a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos:

- prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae'r costau'n uwch na 10% o gyfanswm y buddsoddiad

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

- prynu adeiladau sydd wedi'u defnyddio'n flaenorol ar gyfer yr un diben
- unrhyw waith ffisegol a wneir ar safle cyn y dyddiad dechrau gweithio sydd wedi'i awdurdodi (**os oes gwaith fel hyn wedi'i wneud, gellir diddymu'r dyfarniad cyfan**)
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â gweithredu'r prosiect
- prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (mae wagenni fforch godi, neu debyg, a ddefnyddir ar gyfer cludiant mewnol a thrafod yn gymwys)
- prynu stoc masnachu
- cyfalaf gweithio
- TAW adenilladwy
- costau cynnal a chadw
- costau cyfarpar a llafur ei hun
- cyfnewid peiriannau neu gyfarpar am rai newydd yr un fath
- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer)
- cyfarpar hamdden (er y gall setiau teledu, taflunyddion ac ati at ddibenion addysgol neu fusnes fod yn gymwys)
- tirwedd, gwaith addurnol, a darparu mwynderau hamdden
- cyfarpar a chelfi swyddfa cyffredinol, heblaw am ddesgiau, cadeiriau, cyfarpar ffôn, cyfrifiaduron a chyfarpar TG arall, meddalwedd a theleargraffyddion, cyfarpar labordai a darlithfeydd sy'n hanfodol ar gyfer darparu'r prosiect
- costau refeniw fel cyflogau ar gyfer staff allweddol; hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a staff allweddol; mynychu ffeiriau masnach; treuliau cyfarwyddwyr allanol
- costau sy'n gysylltiedig â contract prydlesu fel elw leswyr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfleusterau cymorth ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu gostau eraill
- gorbenion sy'n cael eu dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau llawer uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwaith tebyg a gyflawnir gan yr ymgeisydd;
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- hapddigwyddiadau / darpariaethau
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- buddrannau
- taliadau llog (ac eithrio dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- iawndal a delir i drydydd parti am ddifeddiannu, cynydau heb eu cynaeafu ac ati
- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (heblaw am TAW na ellir ei hadennill)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha;
- meddalwedd cyfrifiaduron ac apiau a/neu gynnal systemau ar gyfer rheoli busnes/cyfrifon/marchnata a hyrwyddo/gwefannau/gwerth ar-lein;

25. Mae'n rhaid i gostau sy'n gysylltiedig â phrynu a/neu adnewyddu a/neu addasu unrhyw adeilad fod yn briodol i raddfa, natur a bwriad y prosiect. Mae'n rhaid i grantiau ganolbwyntio'n bennaf ar brosesu cynhyrchion amaethyddol ac felly ni ellir eu defnyddio at ddiben caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig.

26. Dim ond os ydynt yn gysylltiedig â phrynu cyfarpar (newydd a/neu ail law) y mae costau'n gymwys ar gyfer cymorth grant pan fo'r gost wedi'i thalu'n gywir gan yr hawliwr. Felly, nid yw costau llawn unrhyw gyfarpar sy'n cael ei sicrhau dan drefniant hurbwrcasu neu brydles neu unrhyw drefniant ariannol arall yn gymwys am gymorth grant. O dan amgylchiadau penodol, gall elfen gyfalaf taliadau misol fod yn gymwys am gyfnod penodol, ond bydd rheolau eraill yn gymwys.

CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROHWY GRANT UCHAF

27. Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y prosiect buddsoddi sy'n cynnwys; arian gan yr UE; cyd-gyllido cronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru; arian gan adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth; cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian gan gyrff llywodraethol a reolir fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi ardrethiannol (ardollau).

28. Os yw cronfeydd cyhoeddus eraill yr UE neu'r DU yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda chostau prosiect byddant yn cael eu disgowntio yn erbyn grant FBIS.

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Tudalen 10 o 26

29. Y trothwy grant uchaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£5,000,000**.

30. Y trothwy grant isaf fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£2,400**.

31. I mewn fel Atodiad 1 ac allan fel Atodiad 1

Lle mae'r mewnbwn a'r allbwn yn gynhyrchion amaethyddol, mae'r cyfraddau grant uchaf fel a ganlyn;

BBaCh – hyd at 40% o gyfanswm y costau buddsoddi, lle bynnag eu lleoliad.

Mentrau Mawr – hyd at 20% o gyfanswm y costau buddsoddi, lle bynnag eu lleoliad.

32. I mewn fel Atodiad 1 ac allan fel rhywbeth heblaw Atodiad 1

Lle mae'r mewnbwn yn gynnyrch amaethyddol, ond mae'r allbwn yn gynnyrch anamaethyddol, bydd y cyfraddau grant uchaf fel a ganlyn;

Rhanbarthau Llai Datblygedig:

Microfentrau a Mentrau Bach - hyd at 40% o gyfanswm y costau buddsoddi

Mentrau Canolig - hyd at 35% o gyfanswm y costau buddsoddi

Rhanbarthau eraill:

Busnesau Bach a Chanolig – hyd at 40% o holl gostau'r buddsoddiad, ond ni thelir grant o fwy na €200,000 dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol, waeth ble y mae. Neu:

Busnesau Bach a Microfentrau – hyd at 20% o holl gostau'r buddsoddiad
Busnesau Canolig – hyd at 10% o holl gostau'r buddsoddiad

Mentrau Mawr - hyd at 20% o gyfanswm y costau buddsoddi ond yn gyfyngedig i drothwy grant uchaf o €200,000 dros unrhyw gyfnod o dair blynedd ariannol, lle bynnag eu lleoliad.

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

33. Bydd grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn yn gydnaws â'r farchnad fewnol dan yr ystyr yn Erthygl 107(3)(c) o'r Cytuniad ac yn cael eu hesemptio o'r gofyniad

hysbysu yn Erthygl 108(3)³ ohono yn unol â naill ai Erthygl 17 neu 44 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 702/2014⁴ (OJ L Rhif 193, 1.7.2014, tud.1.) (Rheoliadau Esemptiad Bloc Amaethyddiaeth). Bydd y cynllun yn cydymffurfio'n llawn gyda darpariaethau perthnasol Erthygl 17 neu 44 o'r Rheoliadau Esemptiad Bloc Amaethyddiaeth.

34. Bydd grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn ar gyfer y gweithgareddau hynny sydd y tu allan i gwmpas y Rheoliadau Esemptiad Bloc Amaethyddiaeth yn gymorth sy'n cydymffurfio yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EU) 1407/2013⁵ (Rheoliad De Minimis Cyffredinol).

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

35. I gael ei ddewis, mae'n rhaid i brosiect, yn ôl yr angen, ddangos:

Yr angen am y gweithgarwch:

- mae angen yr allbynnau a byddwn yn cyflawni yn erbyn allbynnau'r Mesur
- mae'n ychwanegu at yn hytrach na disodli/dyblygu gweithgarwch presennol yn ddiangen.

Yr angen am gyllid:

- ni all fynd rhagddo heb gymorth
- nid yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch □ mae bwlch cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle'n gymwys.

Y gallu i gyflenwi:

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfiaeth gyfreithiol
- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- cymorth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.

36. Po fwyaf yw pwysigrwydd a chyfraniad buddsoddiad y prosiect at amcanion thematig a strategol priodol, po debycaf yw y bydd yn cael ei argymhell ar gyfer ei ddewis.

³ Fersiwn cyfunol o'r Cytuniad ar Weithrediaeth yr Undeb Ewropeaidd (OJ 326, 26.10.2012, Erthygl 107, 108 & 109, tud. 45-47).

⁴ Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 702/2014 ar 25 Mehefin 2014 yn datgan rhai categorïau o gymorth yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth ac mewn ardaloedd gwledig sy'n cydweddu â'r farchnad fewnol wrth ddefnyddio Erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediaeth yr Undeb Ewropeaidd (OJ 193, 1.7.2014, Erthygl 17 & 44, tud. 30-31 & 59-61). ⁵ Rheoliad y Comisiwn (UE) 1407/2013 ar 18 Rhagfyr 2013 ar ddefnyddio erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cymorth *de minimis* (OJ 352, 24.12.2013)

GOFYNION ALLWEDDOL

37. Dim ond un prosiect buddsoddi datblygu busnes fydd gan yr ymgeisydd ar waith ar unrhyw adeg benodol fel arfer.
38. Ni fydd uchafswm cyfnod prosiect buddsoddi yn fwy na thair blynedd fel arfer.
39. Bydd y prosiect yn cynnig manteision uniongyrchol neu anuniongyrchol i gynhyrchwyr cynradd yn y sector amaethyddiaeth
40. Mae yna farchnad gyffredin (hyfyw) ar gyfer cynnyrch (cynhyrchion) y prosiect.
41. Nid fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.
42. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid lenwi bwloch isaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.
43. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:
 - mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes angen hynny
 - mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'u derbyn yn ôl yr angen
 - ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bod, hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer y tair blynedd olynol yn union cyn dyddiad y cais a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect.

Bydd yn rhaid i fusnesau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiad y cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a'r cynigion prosiect:

- cydymffurfio â Chyfraith y DU a'r UE ar gyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
- mae'n rhaid recriwtio staff allweddol drwy gystadleuaeth deg ac agored
- cydymffurfio â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch (i gynnwys cymeradwyaethau gan y Gwasanaeth Hylendid Cig a'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Lleol)
- sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y busnes
- cyrraedd neu ragori ar y raddfa 'Rhagorol' o dan fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM, neu gyfwerth, lle bo angen
- ceisio sicrhau allyriadau di-garbon ar gyfer pob adeilad newydd.

THEMÂU TRAWSBYNCIOL

44. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawsbynciol canlynol: Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhywedd a Datblygu Cynaliadwy. Felly, mae angen ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol gorfodol hyn wrth ddylunio a datblygu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ac wrth gynnal y gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd hynny, gan gynnwys Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
45. Yn ogystal â'r ddwy thema sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd Themau Trawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgau Cymdeithasol hefyd yn orfodol ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Cymru.
46. Y bwriad wrth gynnwys themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth gan sicrhau cyfranogiad gorau posibl a lleihau effeithiau niweidiol ar yr un pryd. Dylai hyn ein helpu i symud tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n hyrwyddo'r arferion gorau.
47. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma: [Canllawiau Themâu Trawsbynciol](#)

SUT MAE GWNEUD CAIS

48. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd na ddylid dewis prosiectau ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bwriedir agor a chau cyfnodau ymgeisio penodol yn achlysurol yn ystod oes y rhaglen, yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael i'w ddyrannu.
49. Bydd dau gam i'r broses ymgeisio. Y cam cyntaf fydd Datgan Diddordeb. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn y cam hwn yn cael eu gwahodd i'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn.
50. Bydd pob Datganiad o Ddiddordeb yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd, a disgwylir y bydd cryn dipyn o alw am y grant sydd ar gael. Bydd y cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf a fydd yn dangos gwerth ddisgwyliedig y buddsoddiad neu brosiect a'r cyfraniad a ddisgwyilir tuag at amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.
51. Bydd manylion y cyfnod(au) Datgan Diddordeb yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y dyddiadau agor a chau, y gyllideb ddangosol sydd ar gael ar gyfer pob cyfnod ac uchafswm nifer y cynlluniau y disgwylir eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y meini prawf hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

52. Bydd y ceisiadau Datgan Diddordeb yn cael eu sgorio a'u gosod yn eu trefn yn ôl haeddiant yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd. Bydd y cynigion yn cael eu dewis yn eu trefn nes bod yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu nes cyrraedd yr uchafswm o ran nifer y prosiectau. Nid oes gwarant y bydd yr holl arian yn cael ei ddyrannu nac y bydd uchafswm nifer y prosiectau yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn.
53. Ceir manylion llawn ynghylch sut i fynegi diddordeb yn y Datganiad o Ddiddordeb – Nodyn Cyfarwyddyd gyda'r meini prawf penodol i'r cynllun a'r ffurflen gais.

Grantiau a Thaliadau Gwledig

54. Pan fydd cynnig prosiect yn cael ei ddewis yn ystod y cam cyntaf hwn, bydd yr ymgeisydd yn cael ei wahodd i baratoi a chyflwyno cais llawn ar gyfer y prosiect arfaethedig, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol megis cynllun datblygu busnes, cyfrifon blaenorol (lle bo'n briodol); rhagamcanion ariannol a llif arian, ac unrhyw wybodaeth berthnasol.
55. Rhaid i'r ceisiadau llawn gael eu cyflwyno drwy borthol WEFO ar-lein. Byddwn yn darparu canllawiau i bob ymgeisydd.
56. Rhaid i'r ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno yn ystod yr ail gam fod yn gyson â'r cynnig amlinellwyd yn y ffurflen Datgan Diddordeb.
57. Bydd y cais llawn yn cael ei arfarnu'n unol â Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun a'r rheolau ar gymhwysedd. Bydd yn destun arfarniad diwydrwydd dyladwy ac archwiliadau cymhwysedd llawn, a dim ond bryd hynny y gwneir penderfyniad terfynol i gynnig grant neu beidio. Ni ellir gwarantu y caiff prosiect a gynigir ei gymeradwyo ar gyfer grant. Byddwn yn gobeithio cwblhau arfarnu'ch cais llawn cyn pen 90 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais llawn. Efallai y bydd angen cyfnod hirach arnom wrth arfarnu prosiectau cymhleth, neu brosiectau ag iddynt broblemau cymhwysedd. Noder os oes oedi ar eich rhan wrth i chi ymateb i gais am wybodaeth bellach gall hyn ymestyn cyfnod arfarnu'ch cais.
- 58. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith nes ichi dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw brosiectau sy'n torri'r rheol hon yn cael eu hystyried ar gyfer grant.**
59. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **bydd yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech chi fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich sefydliad/cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.**

60. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid ichi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod yr wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**

61. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod eu bod wedi'i derbyn. Os nad yw'ch prosiect yn gymwys, cewch wybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw'ch cais yn gymwys bydd arfarniad technegol ac ariannol manwl yn cael ei gynnal. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifir uchod.

62. Mae tri chanlyniad posibl:

- (a) Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Byddwch yn cael clywed hyn cyn gynted â phosibl
- (b) Mae'ch prosiect yn gymwys i'w ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam nad oedd eich cais yn llwyddiannus. Gallwch ymgeisio eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch) – **ar yr amod nad ydych wedi dechrau ar y gwaith**
- (c) Mae'ch prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.

AMODAU GRANT

63. Mae FBIS yn cael ei gwmpasu gan nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth berthnasol amrywiol (gweler nodiadau cyfarwyddyd ar wahân). Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnnydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

64. Mae'r cynnig o grant Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu eich dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

1. Mae'n rhaid derbyn y grant a gynigir o fewn 14 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr cymeradwyo

2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol

Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol

3. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith ar y prosiect cyn cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Llywodraeth Cymru
4. Mae'n rhaid ichi gyflawni unrhyw ymrwymadau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid
5. Ni chewch wneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru o flaen llaw
6. Ni chewch gael gwared ar, trosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect
7. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn y Nodyn Cyfarwyddyd perthnasol ar gyfer y Cynllun
8. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir a chyda'r holl ddogfennau angenrheidiol. Fel arall, byddant yn cael eu gwrthod a'u dychwelyd i'r ymgeisydd
9. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru
10. Mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf cyn pen **chwe mis** i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.

Os nad yw'r hawliad cyntaf yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.

11. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunir arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch wyro oddi wrth hyn heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Llywodraeth Cymru
12. Mae'n rhaid ichi gadarnhau nad oes dim o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau o dan hawliad yswiriant
13. Mae'n rhaid ichi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau'r UE neu'r DU)

14. Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at gyfraniad yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei gyllido
15. Mae'n rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y busnes a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau eraill cysylltiedig fel tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau am o leiaf saith mlynedd ar ôl y daw dyddiad y daw'r prosiect i ben fel y nodwyd yn y llythyr hwn sy'n cymeradwyo'r grant
16. Mae'n rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Ar gais, mae'n rhaid ichi ddarparu gwybodaeth iddynt a/neu fynediad i ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect
17. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Dylech fod yn ymwybodol, os yw'ch cais yn llwyddiannus, bod gan Llywodraeth Cymru a'r CE yr hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.

18. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#)
Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

TALU GRANT

Hawliadau

65. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd ffurflenni hawlio a nodiadau cyfarwyddyd ar sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi ar ôl cadarnhau'r dyfarniad. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
66. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect. Mae'n rhaid derbyn yr hawliadau terfynol erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Gall methu â chyflwyno hawliadau arwain at orfod ad-dalu'r grant sydd wedi'i dalu tan hynny.

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

67. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hynny a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect, ymwelir â'r safle a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gynnal. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys anfonebau gwreiddiol; rhifau cyfresol/peiriannau; tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (Ile'n briodol); system lechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddi risg; dogfennau Asesu Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion Trefniadau Glanhau; cofnodion rheoli plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Bydd rhyddhau'r grant yn amodol ar wneud cynnydd digonol.

Hawliadau anghywir a chosbau

68. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; ei fod am wariant sydd wedi'i dalu yn unig (mae'r arian wedi gadael eich cyfrif banc); bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.

69. Os yw'r hawliad yn anghywir bydd eich hawliad yn cael ei ostwng i'r swm sy'n gymwys a bydd y grant a fydd yn cael ei dalu'n cael ei gyfrifo ar sail hynny. Fodd bynnag, os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% o'r cyfanswm sy'n cael ei hawlio, yna bydd cosb ariannol fel y disgrifir isod.

70. Bydd swm y gwariant cymwys yn cael ei ostwng yn ôl swm y camgymeriad ac felly bydd cyfanswm y grant i'w dalu yn is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth gan na ellir cynnwys y grant a gollwyd mewn hawliadau diweddarach.

71. Os oes gennych chi unrhyw amheuan am gymhwysedd unrhyw wariant rhaid i chi gadarnhau hynny **cyn i chi dalu'r costau.**

Troseddau

72. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (W.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny'n gymwys i FBIS. Mae enghreifftiau o droseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygwr neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

MONITRO PROSIECTAU

73. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Pe bai'r prosiect yn

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

methu â bodloni'r targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, heb gymhwyso i gael cymorth grant o dan y cynllun, gall camau gael eu cymryd i adennill y grant sydd wedi'i dalu.

74. Bydd yn ofyniad ar gyfer dyfarnu'r grant bod y cyfarpar sy'n cael ei brynu gyda chymorth grant Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ac unrhyw adeiladau y telir grant amdanynt, yn cael eu cadw yn eu lleoliad gwreiddiol, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect. Mae hyn er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a sicrhau cyfran barhaol o fanteision y prosiect i'r cynhyrchwyr cynradd.
75. Bydd angen cwblhau ffurflen fonitro bellach ddwy flynedd ar ôl cwblhau ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau. Bydd ymweliadau â'r safle'n cael eu cynnal ar ganran o'r prosiectau a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect i sicrhau bod yr adeiladau a'r cyfarpar a brynwyd gyda'r grant gan yr ymgeisydd o hyd a'i fod yn dal i'w defnyddio at yr un dibenion a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.
76. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod pum mlynedd.

DIWEDD Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN BUSNESAU BWYD

77. Mae'n rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf. Mae'n rhaid cwblhau'r holl weithgarwch prosiect mewn pryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

GWEITHDREFN APELIO

78. Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau am ei wrthod yn cael eu hegluro. Byddwn yn fodlon trafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.
79. Os yw cais yn dal i gael ei wrthod bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n annibynnol arnynt.

GWEITHDREFN GWYNO

80. Os ydych yn teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cŵyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan ar:

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Tudalen 20 o 26

[Cwyn am Lywodraeth Cymru](#)

ATODIAD A

ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI POSIBL

Mae enghreifftiau o'r mathau o brosiectau a gweithgareddau a allai gael eu cefnogi yn cynnwys:

- **grŵp o gynhyrchwyr tatws a all fod** am uwchraddio eu cyfleusterau prosesu a rhesymoli a chyfuno eu cyfleusterau storio a graddio mewn uned fwy, mwy costeffeithiol gyda gwell rheolaeth amgylcheddol
- **cwmni prosesu llysiau a all fod** am wella'i gyfleusterau i ddiwallu gofynion cwsmeriaid a gwella'r ffordd y mae'n trin dŵr gwastraff
- **marchnad da byw a all fod** am wella ei chyfleusterau 'lairage' a chyfleusterau trin/dal eraill i godi'r safonau lles anifeiliaid, gwneud gwelliannau i gylchoedd gwerthu i gyflymu gwerthiannau, neu i wella'r ffordd y mae'n trin elifion
- **lladd-dy a all fod** am ehangu ei brif waith torri er mwyn diwallu anghenion ei gwsmeriaid, i adeiladu cyfleusterau oeri newydd neu gyfleusterau prosesu carcass eraill, i gyflwyno llinellau prosesau newydd at ddibenion penodol, er enghraifft, lladd ar gyfer allforio, neu i wella'r ffordd y mae'n trin elifion
- **cwmni prosesu cig/dofednod a all fod** am wneud gwelliannau ansawdd i'w gynhyrchion neu ehangu i faes arall neu symud i ddeunydd pecynnu mwy chwaethus sy'n targedu rhan arbennig o'r farchnad a gwella ei systemau trin elifion
- **busnes cynnyrch llaeth bach a all fod** am ehangu ei waith gwneud caws i fanteisio ar y farchnad gynyddol ar gyfer cawsiau arbenigol
- **gwneuthurwr caws a all fod** am ddatblygu i gynhyrchu cynhyrchion ansawdd uwch fel cawsiau aeddfed neu symud i feysydd newydd fel caws glas neu wella ei gyfleusterau storio a gwella'r ffordd y mae'n trin gwastraff ac elifion.

ATODIAD B

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Hysbysiad Preifatrwydd

1.1 Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn eich hysbysu am ddefnydd Llywodraeth Cymru o'r wybodaeth sy'n cael ei darparu ar y ffurflen gais sy'n cael ei defnyddio mewn cysylltiad â'ch cais am gymorth o dan gynlluniau Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig i Gymru 2014- 2020 Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu a defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Y rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno fel rhan o'ch cais yw **Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

Y swyddog diogelu data ar gyfer yr un wybodaeth yw'r **Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

Ebost: DataProtectionOfficer@gov.wales

1.2 Caiff yr wybodaeth ei phroses a'i rheoli gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i rhwymedigaethau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1303/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 808/2014
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 809/2014
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) Rhif 679/2016

Caiff yr wybodaeth ei defnyddio'n bennaf at y diben o brosesu a phenderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol. Fodd bynnag, gallai Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer dibenion eraill, fydd yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredinol y Gymuned Ewropeaidd a gyda'i rwymedigaethau amgylcheddol statudol.

1.3 Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gynhelir wrth ymarfer awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data personol i nodi eich lleoliad a busnes(au) eich fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu unrhyw ddata categori arbennig.

1.5 Caiff y data ei brosesu drwy broses awtomatig o reolau busnes yn System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS) Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Rhif Prosiect PPIMS yw'r allwedd gynradd ar gyfer mwyafrif yr adroddiadau.

1.6 Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014, "Conservation of Accounting Information".

2 Rhesymau dros rannu data personol

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

2.1 Mae deddfwriaeth yr UE yn datgan bod yn rhaid bodloni gofynion Trawsgydymffurfio, ymhlith pethau eraill, er mwyn bod yn gymwys. Yr asiantaethau sy'n rhan o orfodi'r cyfarwyddebau hyn ac y gallai Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â hwy yw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaethyddol eraill Llywodraeth y DU.

Gellid defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y canlynol:

- Trawsgydymffurfio a thraws-wirio rhwng sefydliadau y Llywodraeth i atal achosion o dorri amodau y cynlluniau Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos yr ardaloedd o dir sydd wedi derbyn cymorth o dan gynlluniau y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- crynhoi adroddiadau o ddata cyfanredol ac/neu crynodeb o ystadegau i fod ar gael i'r cyhoedd.
- hysbysu penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newidiadau polisi a chyllido gan gynnwys astudiaethau ymchwil a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru i hysbysu wrth Fonitro a Gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig
- nodi perchnogion tir/defnyddwyr mewn achosion brys, e.e. rheoli clefydau a rheoli achosion o dorri amodau
- gwarchod buddiannau ymgeisydd wrth warchod tir a materion allai godi oherwydd ymholiadau cyllido
- caniatáu i sefydliadau sy'n bartneriaid gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol
- datgelu i awdurdodau rheoleiddiol, megis Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu.
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Am ragor am hyn gweler baragraffau J3.2- J3.3 y llyfryn hwn.

3 Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

3.1 Caiff yr wybodaeth ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i rhwymedigaethau a'i dyletswyddau o dan:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddfwriaeth Diogelu Data

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 908/2014
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (CE) 679/2016

3.2 Gallai eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol.

3.3 Mae Rheoliad y Comisiwn (CE) 908/2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau sy'n cael eu talu i'r rhai sy'n elwa o'r PAC. Caiff y data ei gyhoeddi i bob buddiolwr ar wefan y mae modd ei chwilio, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion symiau a chynlluniau y talwyd y cymhorthdal ar eu cyfer. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n derbyn llai na'r hyn sy'n cyfateb â €1,250 mewn cymorthdaliadau, ni chaiff yr enw ei ddatgelu. Caiff y data ei gyhoeddi'n flynyddol ar 31 Mai a bydd yn parhau i fod ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan Defra ar: [Taliadau Pac Defra](#)

4 Hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

4.1 Mae'r GDPR yn rhoi yr hawl i unigolion barchu y data personol sy'n cael ei gadw amdanynt. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- yr hawl i gael eu hysbysu (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn am a derbyn copiâu o ddata personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru beidio datgelu rhywfaint o'r data neu beidio darparu copiâu
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal neu gyfyngu ar Lywodraeth Cymru yn prosesu data personol
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i gywiro data anghywir
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i ddileu data (neu ei anghofio)

Os ydych yn dymuno ymarfer eich hawliau o dan y GDPR, dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a ddarparwyd ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

4.2 Mae gan unigolion yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r GDPR, i asesu a yw y prosesu o'u data personol yn debygol o gydymffurfio gyda'r GDPR. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar:

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd – Nodiadau Cyfarwyddyd

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2il lawr, Churchill House, Churchill Way,
Caerdydd, CF10 2HH, Rhif ffôn: 029 2067 8400, Ffacs: 029 2067 8399,
Ebst:wales@ico.org.uk

Fersiwn 7

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Tudalen 26 o 26